BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD HYDREF 15, 2024

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Brithdir
Nos Fawrth, Hydref 15, 2024 am 7:30 o'r gloch.

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Gerallt Griffith (Cadeirydd) Meurig Ashton, Karen Goswell, Robin Jones, Peredur Jenkins, Geraint Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd. Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

2. Ymddiheuriadau: Emlyn Roberts, Rhun Prys Jones, Llion Williams a Delyth Lloyd Griffiths.

3. Datgan diddordeb.

Mae Gerallt Griffith yn datgan diddordeb ynglŷn â gwyro llwybr ceffyl rhif 67. Eitem 6.ch.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 17, 2024.

Wedi cywiro Eitem 10.a. 'Penderfynwyd hefyd bydd angen cynnwys y swm yn ein cyllideb 2025/ 26' i ddarllen 'Penderfynwyd hefyd bydd angen trafod y mater pan fydd ein cyllideb 2025/ 26 yn cael ei baratoi' cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5 Materion yn codi o'r cofnodion Medi 17, 2024.

Eitem 10.a. Llythyr (18/9/2024) oddi wrth Delyth yn cadarnhau mai y Cyngor Cymuned bydd yn talu am y lamp, a Cyngor Gwynedd bydd yn ei chynnal a'i chadw.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Eitem 7.e. Llythyr (19/9/2024) oddi wrth Mike a Joy Parton sydd angen gwybod beth oedd canlyniad i'n trafodaeth ac os ydym angen fwy o gymorth gallent ei roi.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (20/9/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys cyrsiau hyfforddiant at fisoedd Medi, Hydref, Tachwedd a Rhagfyr.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (23/9/202) oddi wrth Swyddog Gwasanaethau Etholiadau, Cyngor Gwynedd gyda Sylwadau y Swyddog Canlyniadau ynglŷn â Mannau Pleidleisio yn y sir. Yn ein cymuned, mannau pleidleisio yw Neuadd Llanfachreth, Neuadd Rhydymain a Neuadd Brithdir. Os mae sylw angen ei roi i'r sylwadau mae'r llythyr yn cynwys linc i'w hanfon.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (26/9/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod Arferol Pwyllgor Ardal Meirionnydd ar 2/10/2024 am 7.00yh ar Zoom. Amgáu mae Agenda a Chofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhaliwyd ar l7/7/2024. Yn y cofnodion, mae dyletswyddau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri rhoddwyd gan Prif Warden Ardal Ddeheuol y Parc. Hefyd mae ymoliadau am gael ei wneud gyda Cyngor Gwynedd i gael gwybod a oes unrhyw adolygiad ffiniau cynghorau tref a chymuned am gael ei wneud.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (27/9/2024) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae gorchymyn wedi ei wneud i gwyro Llwybr Ceffyl Rhif 67er mwyn gwyro'r llwybr oddi ar dir Cae Crwth, Llanfachreth. Amgáu mae copi o'r gorchymyn a rhybudd statudol i dderbyn gwrthwynebiadau cyn 24/10/2024 pan fydd y gorchymyn yn cael ei gadarnhau.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (30/9/2024) oddi wrth Adra yn rhoi gwybod mae ganddyn nhw sioeau teithiol yn rhoi gwybod am eu gweledigaeth ar gyfer tai a chymunedau. Bydd un sesiwn yn Clwb Rygbi, Dolgellau ar 9/10/2024 am 3:00 i 4:30yp.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (3/10/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys rhestr o gyrsiau hyfforddiant sydd am ddim.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

e. Llythyr (11/10/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys dogfen 'Nodyn Datblygu Ymarfer (9) am Cylch Perwyl ar gyfer Cyfarfodydd Cynghorau'.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/54/573A. Adeiladu estyniad a newidiadau ar y llawr cyntaf. Tynnu ystafell wydr u-pvc ac ailosod waliau a tho clad pren a llechi. Bryn Llinos, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

b. Cais cynllunio NP5/54/29C. Dymchwel adeilad allanol pren presennol ac adeiladu stiwdio newydd. Nant y Gwreiddyn, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (4/10/2024) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cynnwys eu hadroddiad blynyddol drafft 2025-2026.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/9/2024: £1,178.69.
Balans yn y banc ar 29/9/2024: £13,997.96

9. Archwilio

Llythyr (30/9/2024) oddi wrth Archwilio Cymru. Gwybodaeth ychwanegol maent ei angen:

Costau Staff
- Slipiau cyflog. Rydym wedi derbyn slipiau cyflog Chwefror 24 a Mawrth 24 yn yr adran anfonebau yn y ffeil ond nid unrhyw fisoedd eraill. A fyddech cystal ag anfon copi o slipiau cyflog y clercod ar gyfer pob mis fel y gallwn weld eu cyflog misol os gwelwch yn dda.

Ateb rhoddwyd: Rwy'n amgau copiau rydych ei angen.

- Talu Ôl. A fyddech cystal â darparu'r cyfrifiadau ar sut y cyfrifwyd yr ôl-dâl. Roedd yr ol daliad yn y tri mis olaaf - Ionawr, Chwefror a Mawrth 2024.

Ateb rhoddwyd: Gweler Cofnodion Tachwedd 21, 2023 a Chofnodion Mawrth 19, 2024.

Datganiadau Banc
- Datganiad Banc Chwefror 2024. A fyddech cystal ag anfon copi o Ddatganiad Banc Chwefror 2024 drwyddo yn dangos y taliad o £216 ar gyfer 'costau cynnal a chadw ein gwefan' gan na ellir dod o hyd i'r taliad hwn yn Natganiadau Banc Ionawr-Mawrth 2024 ac nid yw wedi'i restru fel siec heb ei chyflwyno ar y Cysoniad Banc.

Ateb rhoddwyd: Amgáu mae Datganiad Banc 30 Ionawr tan 29 Chwefror 2024 yn dangos y taliad £216.

Anfonebau

- Anfoneb ar gyfer 'taliad am weithio gartref'. A allwch chi anfon copi o'r anfoneb ar gyfer y taliad hwn a sut mae'r ffigur wedi'i gyfrifo.

Ateb rhoddwyd: Nid oedd anfoneb am £150. Penderfynwyd ar y taliad yn y cyfarfod. Gweler Cofnodion Tachwedd 21, 2023.

- Anfoneb ar gyfer Neuadd Llanfachreth. A allwch chi anfon copi o'r anfoneb ar gyfer y taliad hwn.

Ateb rhoddwyd: Nid oedd anfoneb ar gyfer y taliad. Amgáu mae llythyr (22/2/2024) diolch am y swm. Roedd y taliad yn rhodd i'r Neuadd, rhodd sy'n cael ei roi yn flynyddol.

- Anfoneb ar gyfer Neuadd Rhydygorlan. A allwch chi anfon copi o'r anfoneb ar gyfer y taliad hwn.

Ateb rhoddwyd: Nid oedd anfoneb ar gyfer y taliad. Amgáu mae llythyr (22/2/2024) yn cyflwyno y taliad. Roedd y taliad yn rhodd i'r Neuadd, rhodd sy'n cael ei roi yn flynyddol.

Cofnodion

- Ad-dalu taliad Llwybrau. 29/12/23 am £490.30. A fyddech cystal â darparu cofnod sylfaenol ar gyfer y trafodiad hwn.

Ateb rhoddwyd: Derbyniwyd yr ad-daliad oddi wrth Cyngor Gwynedd. Rhoddwyd cais am yr ad-daliad, fel roedd ei angen ei wneud i Cyngor Gwynedd. Amgáu mae llythyr i Cyngor Gwynedd.

Anfonwyd yr atebion ar 2/10/2024.

10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

a. Llythyr (18/9/2024) oddi wrth Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd gyda gwybodaeth ar sefyllfa gyfreithiol y cae chwarae sydd gyferbyn Ysgol Llanfachreth. Mae gan y Cyngor Cymuned yr hawl i ofyn am drosglwyddiad y tir.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Anfonodd y Cyngor Cymuned lythyr (Mawrth 22, 2019) i Uwch Syrfewr Stadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:-

1. Mae'r Cyngor Cymuned yn dymuno i Gyngor Gwynedd trosglwyddo'r maes parcio sydd nesaf at safle Ysgol Llanfachreth am y swm o £1 i'r Cyngor Cymuned.
2. Mae'r Cyngor Cymuned yn dymuno i Gyngor Gwynedd trosglwyddo'r maes chwarae gyferbyn a'r ysgol i'r Cyngor Cymuned.

Cafodd y llythyr ei anfon hefyd i Guthrie Jones a Jones a ddaru nhw rhoi gwybod i Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd y nhw fydd yn gweithredu ar ein rhan ar y mater.

Penderfynwyd cysylltu â'r Adran Dai ac Eiddo i roi ein sylwadau ar y mater.

b. Llythyr (4/10/2024) oddi wrth Rheolwraig, Meithrinfa Seren Fach, Brithdir yn diolch am arwyddion ffordd i ostwng cyflymder ceir sy'n mynd heibio'r feithrinfa.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (7/10/2024) oddi wrth Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Bangor yn rhoi gwybod bydd ty dwy ystafell wely i'w osod yn ystod mis Tachwedd. Mae'r ty yn Ganllwyd. Mae angen rhannu'r wybodaeth. Os mae gan rywun diddordeb iddo gysylltu ag Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

12. Materion yr Aelodau

a. Oddi wrth Rhun. Mae gwyneb y ffordd sy'n mynd heibio Rhydfellen, Abergeirw mewn cyflwr gwael. Rhai misoedd yn ôl cafodd darnau gwael o'r ffordd ei farcio gan Cyngor Gwynedd a rhoddwyd 'cones' yno hefyd, ond ers hynny mae'r marciau wedi diflannu a'r 'cones' wedi eu malu a'r tyllau yn cael eu cuddio gan ddŵr. Mae'r broblem o'r fath yn codi oherwydd nid yw Cyngor Gwynedd yn glanhau ffosydd yn wahanol iawn i ffordd Trawsfynydd lle mae ffosydd yn cael eu glanhau yn rheolaidd.

b. Mae angen llenwi twll sydd ar wyneb y ffordd o Capel Abergeirw at y bont. Mae hwn yn hen gwyn.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd am roi sylw i a.b.

c. Penderfynwyd gwneud ymoliadau ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri os ydynt yn ymwybodol bod mainc oedd wedi ei leoli yn 'top' llwybr Torrent wedi mynd o'r safle. Roedd y fainc mewn cyflwr gwael. Mi fydd angen mainc newydd ar y safle.

Llofnod: Dyddiad: